

# FFEDERASIWN CLYBIAU IFANC CYMRU



**PWYLLGOR RHYNGWLADOL  
DYDD LLUN, 27ain MEDI, 2021  
ZOOM 8.00 yh**

## COFNODION

**CADEIRYDD:** Mr Niall Evans

**IS-GADEIRYDD:** Miss Nerys Lewis

**PRESENL:** Niall Evans (Cadeirydd); Nerys Lewis (Is-Gadeirydd); Caitlin Harley (Brycheiniog); Sian Emberton (Maldwyn); Cathrin Jones (Sir Gâr); Cerys Baker (Gwent); Lwsi Morgan (Maldwyn).

### HEFYD YN BRESENNOL:

Caryl Haf (Cadeirydd CFFI Cymru); Rhianwen Jones (Swyddog Cystadlaethau a Rhyngwladol)

### I/01/2022 CROESO A CHYFLWYNIADAU'R CADEIRYDD

Wrth agor y cyfarfod, croesawodd y Cadeirydd Niall Evans bawb i'r cyfarfod a gofyn i bawb gyflwyno eu hunain. Anogodd Niall yr aelodau i gymryd rhan weithgar yn y trafodaethau.

### I/02/2022 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan aelodau o Forgannwg, Andrew Spencer (Aelod Cyf-ethol); Lowri Jones (Ceredigion); Elin Lewis (Maldwyn); Rhiannon Davies (Cyn Gadeirydd); Tomos Lewis (Sir Benfro); Iestyn Owen (Sir Gâr)

### I/03/2022 AMODAU GORCHWYL Y PWYLLGOR

Dangoswyd Amodau Gorchwyl y pwyllgor ar y sgrîn. Cynnigwyd ddau gywiriad a fe fydd yr Amodau Gorchwyl yn awr yn cynnwys "1 x Cynrychiolwr a phleidlais" i'w ethol o bob sir a "llefafswm o 3 cyfarfod" i'w gynnal bob blwyddyn.

Cafodd y termau cywiredig eu cymeradwyo gan y pwyllgor.

**Cynigydd:** Cathrin Jones

**Eilydd:** Nerys Lewis

### I/04/2022 I GADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynnalwyd ar 16eg Mawrth 2021, eu dangos ar sgrîn. Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo a'u arwyddo fel record gwir a chywir. The minutes of the last meeting, held on Tuesday 16<sup>th</sup> March, 2021 were shown on screen. The minutes were approved and signed as a true and correct record.

**Cynigydd:** Nerys Lewis

**Eilydd:** Cathrin Jones

### I/05/2022 PWYNTIAU GWEITHRED A MATERION YN CODI O'R COFNODION

GWEITHRED	SYLWADAU
<b>Pwynt Gweithred 1:</b> Gweithdy i'w drefnu gyda Trina Moore o Gyrfaoedd Llaeth Seland Newydd i uchelbwyntio cyfleoedd yr ysgoloriaeth	Mae gweithdy wedi cael ei gynnal a nodwyd ei fod yn addysgiadol iawn. Fel canlyniad o hyn fe gafwyd 8 cais i'r rhaglen. Yn anffodus ni fynychodd rhai

laeth i aelodau CFFI Cymru	aelodau'r cyfweiliadau. Dylai fod aelodau yn ymwybodol fod rhaid iddynt adael CFFI Cymru wybod mor gynted ac sy'n bosibl os nad ydynt yn bwriadu mynychu'r cyfweiliadau
<b>Pwynt gweithred 2:</b> Cytunwyd i gadw cysylltiad gyda mudiad Ffermwyr Ifanc yr Almaen er mwyn trefnu cyfnewidfa yn 2022.	Mae yna gyfnewidfa ar gael i'w gynnwys yn y rhaglen eleni, er bod rhai manylion i'w ystyried, gyda 2 aelod yn dychwelyd i Gymru.
<b>Pwynt gweithred 3:</b> I wneud Ieuenctid Gwledig Ewrop yn ymwybodol na fydd hi'n bosibl i CFFI Cymru westeio'r Seminar Hydref 2022 o achos pryder ariannol. Fe fydd CFFI Cymru yn dal i fonitro'r sefyllfa ac yn edrych ymlaen i ddangos diddordeb i westeio unwaith fydd y sefyllfa'n fwy clir.	Mae llythyr wedi ei ddanfon ac wedi cael ei dderbyn gan Ieuenctid Gwledig Ewrop.

## I/06/2022 GOHEBIAETH

**Prosiect Cocoreado** – Mae cyfle wedi codi gyda Ieuenctid Gwledig Ewrop. Fel rhan o'r prosiect Cocoreado newydd, fe fydd aelodau yn dod yn llysgenhadon ac yn ymglymedig mewn datblygu systemau bwydydd masnach deg, cyflog mwy teg i ffermwyr a cynnyrch mwy cynailadwy i'r defnyddwyr. Y dyddiad cau am geisiadau yw 21ain Tachwedd 2021.

Cytunoddd y pwyllgor i basio'r gwybodaeth ymlaen i Bwyllgor Materion Gwledig, gan fod yr aelodau'n teimlo ei fod yn fwy addas fel cyfle amaethyddol yn hytrach na chyfle teithio.

### **Pwynt gweithredu 1:**

I wneud Pwyllgor Materion Gwledig yn ymwybodol o Brosiect Cocoreado ac i ddanfon atynt unrhyw wybodaeth sydd wedi ei dderbyn.

**Is-Bwyllgor Ieuenctid Gwledig Ewrop** – Mae is-bwyllgor Ieuenctid Gwledig Ewrop newydd wedi ei sefydlu – Is-bwyllgor Gwaith Polisi. Mae pob cyfundrefn sy'n aelod a sedd ar y pwyllgor, ac yn gyfle i ffurfio cyfeiriad papurau polisi'r dyfodol ar lefel Ewropeaidd ac hefyd yn rhoi mewnwelediad i'r gwaith sydd yn cael ei wneud gan Ieuenctid Gwledig Ewrop.

Cytunwyd i ddanfon y manylion i'r swyddfeydd sirol er mwyn cael hybu'r cyfle ac enwebiadau i'w danfon i CFFI Cymru erbyn dydd Mawrth 5ed Hydref 2021.

### **Pwynt Gweithred 2:**

E-bost i'w ddanfon i bob trefnydd sir yn cynnwys manylion o'r is-bwyllgor newydd. Enwebiadau i'w danfon i CFFI Cymru erbyn 5ed Hydref 2021.

## I/07/2022 I GADARNHAU RHAGLEN RHYNGWLADOL 2022

Mae CFFI Cymru wedi bod mewn cysylltiad gyda'r teithwyr i gyd o 2019 a 2020 i ofyn a ydynt yn dal i fwriadu trafaelio yn 2022 fel rhan o'r gytundeb a gafodd ei rholio

drosodd. Dangoswyd y manylion ar y sgrin a rhoddwyd ddiweddariad ar bob trip a chytuno'r trefniadau fel a ganlyn:

Agri Eye	<p>Mae pwyllgor Materion Gwledig wedi cytuno ar deithlen yn cynnwys 3 penwythnos drwy 2022.</p> <p>Mae dau le ar gael ac yn cael eu cynnig allan i aelodau.</p>
Interrailing	<p>Fe all hwn fynd ymlaen fel a drefnwyd.</p> <p>Mae dau le ar gael ac yn cael eu cynnig i aelodau.</p>
Ynys Manaw	<p>Mae cynnig wedi cael ei ddanfon gan Ynys Manaw i aelodau gyrraedd ar 26ain Tachwedd 2021 er mwyn iddynt allu fynychu y digwyddiad 'Welly Winterland' fel rhan o'u ymweliad ac i aros hyd ddydd Sul 28ain Tachwedd.</p> <p>Cytunodd y pwyllgor i CFFI Cymru siarad gyda aelodau sydd yn barod ar y trip i ofyn os ydynt yn hapus gyda'r dyddiad newydd yma, neu fyddai well ganddynt fynd yn yr haf.</p> <p>Mae yna bosibilrwydd y gallwn agor i fyny y trip gaeaf a'r trip haf yn seiliedig ar niferoedd ac ymateb gan Ynys Manaw.</p>
Saffari	<p>Mae Contiki wedi dod yn ol gyda posibilrwydd o ddau ddyddiad i'r trip Saffari yn 2022: Awst 7fed neu Awst 21ain. Cytunodd y pwyllgor i fwcio'r dyddiad Awst 21ain a CFFI Cymru i ddiweddarau'r grŵp Saffari ar y costau a'r dyddiad newydd.</p> <p>Tri lle ar gael ar hyn o bryd ac os fydd rhagor, fe fyddant yn agored i aelodau.</p>
Hwyllo	<p>Penderfynwyd i gadw'r dyddiad mor agos a phosibl i'r dyddiad a drefnwyd yn 2020. Fe fydd raid i ni gwirio gyda'r cwmni os fyddant yn fodlon i aelodau sydd yn awr dros 18 i drafaelio gan ei fod yn drip i rai o dan 18 o'r blaen.</p> <p>'Roedd yna opsiwn i ddefnyddio llong 10 dyn neu long 8 dyn. Penderfynwyd i ddefnyddio llong 10 dyn ac i agor fyny y tri lleoliad oedd ar ôl.</p>
Yr Alban	<p>Maent eto i wneud penderfyniad ynglyn ac aelodau i westeio. Fe gawn ddiweddariad yn y cyfarfod nesaf.</p>
Ysgoloriaeth	<p>I'w ail-hysbysebu a'i agor fyny i aelodau.</p>
Astudio	<p>'Roedd un aelod yn awyddus i drafaelio yn 2022. Cytunodd y pwyllgor i beidio ac</p>

	agor yr ail le gan fod lleoliadau Ieuentid Wledig Ewrop yn brin. Petai sefyllfa IWE yn newid, fe wnaiff y pwyllgor ail ystyried agor y lleoliad i fyny.
Ulster	Eto i glywed `nol gan Ulster gyda'u penderfyniad ynglyn ac aros yn y cartref.
Ffindir	Maent eto i wneud penderfyniad ynglyn ac aros yn y cartref ond fodd bynnag `does dim lleoliad ar ôl i hysbysebu.
Rali	Mae'r Rali `rwan wedi newid i'r Almaen. Mae un lleoliad ar gael i'w gynnig i'r aelodau.
Seminar yr Hydref	Mae'r digwyddiad gorfforol wedi ei ganslo gyda phosibilrwydd y caiff ei gynnal yn rhithiol neu fe gfydd yn cael ei gynnal yn yr Iwerddon yn 2022.  Un lleoliad ar gael i'w gynnig i'r aelodau.
Canada	Yn aros i glywed yn ôl, fodd bynnag nid oes lleoliad ar gael i aelodau.
Colorado / Montana / UDA	UDA yn hapus i westeio 5 person cyfnewid ond fe fyddent yn disgwyl i Gymru ddychwelyd drwy westeio 4 person gyda un teulu ddim i westeio am lai na pythefnos fel a fynegir gan Cyd-drefnydd IFYE, Alan Lambert  Ar ôl trafodaethau cytunwyd i aelodau i fynd a hyn yn ôl a gweld a fyddai siroedd yn fodlon i westeio am 2 wythnos ar y tro. I ddod yn ôl erbyn Hydref 22ain gyda unrhyw syniadau neu gynigion.  Dim lleoliadau ar gael i aelodau.

### **Pwynt Gweithredu 3:**

E-bost i'w ddanfôn i'r Siroedd ynglyn ac Aros yn y Cartref yn UDA

### **Pwynt Gweithredu 4:**

CFFI Cymru i gwblhau cytundebau gyda gwledydd gwesteio ac i geisio cysylltu y rhai sydd heb eto ymateb.

## **1/08/2022 I GADARNHAU RHAGLEN RHYNGWLADOL 2023**

Gofynodd y Cadeirydd Niall Evans am awgrymiadau am gyfleoedd teithio 2023. Mae CFFI Cymru yn barod wedi edrych ar daith grwp i'r America a fyddai'n bosibilrwydd yn 2023. `Roedd Trip Sgïo wedi cael ei drefnu am 2022, fodd bynnag cytunodd y pwyllgor i symud hwn i 2023 ac fe gaiff hyn ei hysbysebu yn y Gwanwyn.

Gofynodd Niall os oedd gan rhywun syniadau am deithiau, i'w hanfôn i CFFI Cymru cyn y cyfarfod nesaf.

## **I/09/2022 BLAENORIAETHAU IS BWYLLGOR RHYNGWLADOL**

Dywedodd y Cadeirydd, Niall Evans, mae prif flaenoriaeth y pwyllgor fyddai lles pob unigolyn, y rhai sydd yn trafaelio a hefyd y rhai fydd yn dod i Gymru fel cyfnewidfeydd.

Dylai cyfnewidfeydd clybiau hefyd gael eu hyrwyddo fel fordd o gael aelodau i gyfarfod eu gilydd y tu allan i gystadlu. Mynegodd Cadeirydd CFFI Cymru, Caryl Haf, fod ein swyddog Marchnata a Chyfathrebu newydd, Anna, yn dechrau yfory ac fe allai'r pwyllgor weithio gyda hi i hyrwyddo cyfnewidfeydd clybiau. Cytunodd y pwyllgor.

### **Pwynt Gweithredu 5:**

I drefnu cyfarfod gyda Cadeirydd y Pwyllgor, Rhianwen Jones ac Anna Jones i edrych ar hyrwyddo cyfnewidfeydd clybiau.

## **I/10/2022 LLES AELODAU**

Gofynnodd Niall am gynigion i wella lles aelodau, yn enwedig pan yn gwesteio pobl cyfnewidiadol ac awgrymiadau sut i wneud hyn. Os oes gan rhywun unrhyw syniadau, danfonwch nhw i CFFI Cymru.

## **I/11/2022 ETHOLIAD ARBENIGWYR PWYLLGOR**

Ystyriodd aelodau etholiad arbenigwyr pwyllgor ac fe gytunwyd y dylai aelod o YFA (Llysgenaid Ffermwyr Ifanc) gael ei ethol i'r pwyllgor. Cynigwyd hefyd y dylai Elen Williams, cynrychiolydd Grŵp 1 i Ieuentid Wledig Ewrop, gael ei hethol - cytunwyd hyn gan y pwyllgor.

Cytunwyd na fyddai'r pedwar lle ar ôl yn cael eu ethol yn y cyfarfod hwn on fe ellir eu defnyddio drwy'r flwyddyn fel y dewisir gan y pwyllgor.

## **I/12/2022 EITEMAU AGENDA & DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cafwyd trafodaeth ynglyn a chyfarfodydd wrth fynd ymlaen. Cytunwyd y byddai Pwyllgor Rhyngwladol yn cynnal 3 cyfarfod mewn person y flwyddyn, yn rhedeg ochr yn ochr gyda chyfarfodydd y Cyngor, ac unrhyw gyfarfodydd eraill i'w cynnal drwy Zoom.

Fe gaiff dyddiad y cyfarfod nesaf ei agor allan i gynrychiolwyr drwy Grŵp WhatsApp i weld pa ddyddiad fydd orau yn yr wythnos yn decharau 25ain Hydref 2021

## **I/13/2022 ETHOLIAD SWYDDOGION PWYLLGOR**

### **Cadeirydd**

Gofynwyd am enwebiadau i swydd y cadeirydd gyda'r canlynol yn cael ei rhoi ymlaen:

Nerys Lewis – Gwent

Cynigyddr: Niall Evans

Eilydd: Cathrin Jones

### **Is-Gadeirydd**

Gofynwyd am enwebiadau am swydd yr is-gadeirydd, gyda'r canlynol yn cael ei rhoi ymlaen:

Caitlin Harley - Brycheiniog

Cynigydd:

Eilydd:

## **Ysgrifennydd Cofnodion**

Gofynwyd am enwebiadau am swydd ysgrifennydd cofnodion gyda'r canlynol yn cael ei roi ymlaen:

Niall Evans - Brycheiniog

Cynigydd: Nerys Lewis

Eilydd: Caitlin Harley

### **I/14/2022 UNRHYW FUSNES ARALL**

Ar ran y pwyllgor, diolchodd Cadeirydd CFFI Cymru Caryl Haf i Niall am ei holl waith caled fel Cadeirydd yn enwedig gyda blwyddyn sydd wedi bod mor anodd. Hefyd dymunodd Caryl pob lwc i Niall yn ei swydd gyda Ieuentid Gwledig Ewrop a phob lwc i Nerys, Caitlin a'r tîm drwy'r flwyddyn i ddod.

Eiliodd Nerys Lewis y diolch i Niall a dymunodd lwc iddo gyda Ieuentid Gwledig Ewrop,

Wrth gau'r cyfarfod, diolchodd Niall i bawb am eu gwaith caled a'r gefnogaeth dros y flwyddyn diwethaf, yn enwedig gyda'r penderfyniadau anodd i ganslo'r teithiau yn 2021 a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen i weld trafaelio CFFI yn dychwelyd i normalrwydd y flwyddyn hon.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddatganwyd y cyfarfod ar gau am 9.35 yh.

Arwyddedig: \_\_\_\_\_

Dyddiedig: \_\_\_\_\_

<b>GWEITHRED</b>	<b>SYLWADAU</b>
Pwynt Gweithred 1: I wneud pwyllgor Materion Gwledig yn ymwybodol o Prosiect Cocoreado ac i ddanfôn ymlaen unrhyw fanylion a dderbynwyd.	
Pwynt Gweithred 2: E-bost i'w ddanfôn i'r trefnwyr sirol i gyd gyda manylion yr is-bwyllgor newydd. Dylai enwebiadau gael eu danfôn i CFFI Cymru erbyn dydd Mawrth 5ed Hydref.	
Pwynt Gweithred 3: e-bost i'w ddanfôn i'r siroedd ynglyn ag aros mewn cartrefi yn UDA	
Pwynt Gweithred 4: CFFI Cymru i derfynu cytundebau gyda gwledydd gwesteio a cheisio cysylltu gyda'r rhai sydd heb ateb eto.	